# CYNGOR CYMUNED BETWS

## 2007 04 Ebrill Cofnodion

Cynhaliwyd cyfarfod misol y Cyngor yn Festri Capel Newydd, Y Betws ar ddydd Mercher y 11eg o Ebrill 2007 am 7.00 p.m.

YN BRESENNOL: Y Cynghorwr Menna Roberts (Cadeirydd), Henadur Arnallt D James, y Cynghorwyr Anne Sizmur, Loreen Lewis, Annette Price, Delyth Richards, Peter Cowell ac Audrey Jones.

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr Carwyn James, Keith Rees, June Gunter, Betsan Jones a'r Cynghorwr Sir John D Evans.

DATGANIADAU GAN AELODAU AM FUDDIANNAU ARIANNOL A RHAI HEB FOD YN ARIANNOL.
Dim.

1.DARLLEN AC YSTYRIED COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR Y 14eg O FAWRTH 2007.
Cadarnhaodd y Cynghorwr Loreen Lewis ac eiliodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod cofnodion cyfarfod y 14eg o Fawrth 2007 yn gywir ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

2. MATERION YN CODI.
2.1 Ardal Picnic ar Fynydd y Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price yn pryderu oherwydd nid yw'r ffens amgylch yr ardal picnic wedi cael ei thrwsio / ailosod. Gofynnodd i'r Clerc i erlid y mater hwn.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu â'r Uned Adloniant a Chefn Gwlad o Gyngor Sir Caerfyrddin.

2.2 Tir ger Heol Y Felin, Betws.
Dywedodd y Clerc ei bod hi wedi cysyllti gydag Un Llais I Gymru sydd wedi cynghori ei bod nhw'n defnyddion gyfreithwyr mewnol ei hunan i ddelio gyda materion cyfreithiol. Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price fod rhaid i'r Cyngor Cymuned cofrestri'r tir ar frys ac eiliodd y Cynghorwr Loreen Lewis y cynnig hwn. Hefyd dywedodd y Clerc ei bod hi wedi gwneud ymholiadau gyda gwahanol Gyfreithwyr sydd wedi eu lleoli yn Rhydaman, ac sydd yn gallu helpu'r Cyngor Cymuned I gofrestri'r tir yn enw Cyngor Cymuned y Betws. Rhoddodd y Clerc y manylion i'r Cynghorwyr ynglyn ar wahanol Gyfreithwyr ai taliadau. Penderfynwyd y Cynghorwyr I ddefnyddion Gyfreithwyr Llys Cennen. Hefyd awgrymodd y Cynghorwr Anne Sizmur fod y Cadeirydd Menna Roberts a'r Clerc yn gwneud trefniadau i gwrdd gyda'r Cyfreithiwr, a hefyd bod Mr Jones yn bresennol yn y cyfarfod. Cytunwyr y Cynghorwyr fod eisiau gwneud hyn ar frys.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc, y Cadeirydd a Mr Jones yn cyfarfod gyda'r Cyfreithwr ynglyn â chofrestru'r tir yn enw'r Cyngor Cymuned.

2.3 Ffens amgylch lle chwarae ar Heol Y Felin.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn ymateb wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â'r ffens amgylch lle chwarae ar Heol Y Felin. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell fod cytundeb wedi cael ei ddodi mewn i le sawl blwyddyn yn ôl gan y Cyngor Sir flaenorol, lle fod y ffens amgylch lle chwarae yn cael ei arofalu am einioes.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn erlid y mater hwn.

2.4 Clwb Hwyl a Sbri Betws.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi wedi derbyn copi o fantolen ddiweddar Glwb Hwyl a Sbri Betws.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.5 Cyngor Cymuned y Betws - Taflen Newyddion.
Rhoddwyd y Cynghorwr Menna Roberts copïau o'r taflennu newyddion i'r Cynghorwyr, fel y gallant ddosbarthu nhw i breswylyddion ym Metws.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

2.6 Eglwys Dewi Sant, Betws.
Darllenodd y Clerc llythyr a dderbyniwyd wrth y Parchedig Bowen o Eglwys Dewi Sant Betws. Rhoddodd y Parchedig Bowen ddiolch i'r Cyngor Cymuned am ei chyfraniad at y gost o gadw'r goleuadau llif a hefyd at y gost o gadw'r goleuadau tymhorol ar y goeden tu allan i'r Eglwys. Yn anffodus nid yw'r goleuadau ar y goeden yn gallu cael ei adael arno ar ôl y Flwyddyn Newydd oherwydd amcanion yswiriant.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3. GOHEBIAETH.
3.1 Cyngor Sir Caerfyrddin - Ymgyrch i lanhau Sir Gaerfyrddin.
Trafodwyd yr uchod gan y Cynghorwyr ac fe awgrymodd y Cynghorwr Annette Price lanhau'r ardal picnic ar fynydd y Betws, fe gytunwyd y Cynghorwyr. Penderfynwyd y Cynghorwyr i lanhau'r ardal picnic yn ystod ganol / diwedd mis Mai. Fydd y dyddiad yn cael ei chadarnhau yn cyfarfod mis nesaf.
PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr i roi hyn ar agenda'r cyfarfod nesaf.

3.2 Cymdeithas Teithwyr Sir Gaerfyrddin - Dyfarniadau Tîm Gwefan.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn e-bost yn gwahodd y Cynghorwyr I noson dyfarniadau Tîm Gwefan ar yr 27ain o Ebrill. Gofynnodd y Cynghorwr Menna Roberts os yw hi'n gallu bod yn bresennol yn yr uchod ar ran y Cyngor Cymuned. Cytunwyd y Cynghorwyr.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.3 Cyngor Sir Caerfyrddin – Rhaglen Llwybrau Troed a Llwybrau Ceffylau 2007/2008.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi danfon yr uchod ymlaen at Gynghorwr Peter Cowell fel y gall ef gwblhau'r ffurflen. Roedd y Cynghorwr Peter Cowell wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn â chyflwr y llwybrau troed, dywedodd fod 30 llwybr troed i gyd ym Metws. Mae ef hefyd wedi dodi ymlaen fod codiad o 3% yn cael ei rhoi am y gwaith tirio a sothach ar lwybrau troed a llwybr ceffylau cofrestredig ym Metws, a gobeithio bydd hyn yn cael ei dyddiadau yn nol am y ddwy flynedd diwethaf. Hefyd cadarnhau bydd yn danfon y ffurflen gyflawn ymlaen at Gyngor Sir Caerfyrddin.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

3.4 Bwrdd Yr Iaith.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn ymarferiad hunan asesu wrth Fwrdd Yr Iaith ynglyn â Chynllun Iaith Gymraeg.
PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr bod y Clerc yn cwblhau a dychwelyd yr ymarferiad hunan asesu.

3.5 Un Llais I Gymru - Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gohebiaeth wrth Un Llais I Gymru, ynglyn â Phwyllgor Adran Sir Gaerfyrddin, sydd yn gofyn a oes gan y Cyngor Cymuned unrhyw bynciau maen nhw am godi sy'n pryderu nhw? Awgrymodd y Cynghorwr Annette Price - 'pan nid yw'r Cynghorwyr sydd yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar gyrff allanol yn gallu cysylltu yn gyfeirnod gydag Un Llais I Gymru', cytunwyd y Cynghorwyr.
PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr bod y Clerc yn danfon sylwadau'r Cynghorwyr I Un Llais I

Gymru.

3.6 Cyngor Sir Caerfyrddin - Ffordd Dosbarthwyr Rhydaman, Stryd y Parc I gysylltu â Phontaman.
Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi derbyn gorchmynion amrywiol rheoli traffig sy'n cysylltu â ffordd dosbarthwyd uchod, wrth Gyngor Sir Caerfyrddin. Dywedodd y Cynghorwr Peter Cowell ei fod ef yn gwerthfawrogi'r ymdrech mae'r Swyddog Cymuned yr Heddlu wedi gwneud ynglyn ar uchod, ond nid yw'r Cynghorwyr yn hapus gyda'r arolwg y cynllunwyr ac mae eisiau gwneud rhywbeth ar ffris. Hefyd awgrymodd y Cynghorwyr delai croesfan pelican cael ei ddodi ar hyd Heol Ffowndri.
PENDERFYNWYD Y Cynghorwyr bod y Clerc yn danfon pryderon y Cynghorwyr ymlaen at Gyngor Sir Caerfyrddin.

3.7 Gohebiaeth: Cydnabuwyd a nodwyd y canlynol.
1.Taflen newyddion HOWLTA - danfonwyd ymlaen at Gynghorwr Carwyn James.
2.Posteri Dwyieithog yr Ombwdsman - rhoddwyd i Gynghorwr Audrey Jones.
3.Un Llais I Gymru - Canllawiau ar Sefydlu Gweithdrefn Swynion - Clerc i ddosbarthu copïau i'r Cynghorwyr yn y cyfarfod mis nesaf.
4.Un Llais I Gymru - Crynodeb fer 'Rhannu Cyfrifoldeb'.
5.Un Llais I Gymru – Bwletin Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin.
6.Rhwydweithiau Cymunedol – Datganiad Cenhadaeth.
7.Cyngor Sir Caerfyrddin - Pris Diwygiedig goleuo'r droedffordd am y flwyddyn 2007/2008.
8.Her Iechyd Cymru - rhoddwyd I Gynghorwyr Annette Price a Delyth Richards.
9.Bwrdd Iechyd Lleol – Paneli Iechyd.
10.Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gar - Gwahoddiad I Ddiwrnod Gwirfoddoli ar y 4ydd o Fehefin.

4. MATERION CYNLLUNIO.
4.1 Mae Cyngor Cymuned Y Betws wedi rhoi caniatâd i'r ceisiadau canlynol:-
E/15725 - Ty ger Tan Y Berllan, Heol Maes Y Berllan, Betws (30/2006-07).
E/15854 - Estyniad ochr i ddau lawr ac estyniad sengl i fynediad cyntedd i'r tu blaen ger Llwch Is Awel, Betws (2/2007-08).

4.2 Mae Cyngor Cymuned y Betws wedi gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol:-
E/15891 - Adeiladi dau annedd i arlwyo llety i'r hyfforddwyr a hyfforddwyr stabl ynglyn â sefydliad hyfforddiant ceffylau ger Bryneithin, Heol Argoed, Betws(4/2007-08).
E/15892 - Adeiladu bloc stabl ynglyn â sefydliad hyfforddiant ceffylau ger Bryneithin, Heol Argoed, Betws (5/2007-08).
E/15851 - Estyniad i'r cyfoes Gwaith Glo Cwm Yr Onnen, Ffarm Henrhyd, Rhydyfro, Abertawe (1/2007-08).

4.3 Nid oedd Cyngor Cymuned Y Betws yn gallu darparu ei sylwadau ar y cais cynllunio canlynol nes bod Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymateb yw sylwadau:-
E/15850 – Codiad o 3 adeilad diwydiannol ger Gwaith Glo Betws, Rhydaman (3/2007-08).

4.4 Trafodwyd y cais canlynol yn fanwl gan y Cynghorwyr. PENDERFYNWYD y Cynghorwyr ei fod nhw am gael rhagor o wybodaeth wrth Gyngor Sir Caerfyrddin ynglyn ar gais canlynol oherwydd redden nhw'n pryderu dros ben:-
E/15910 – Bwriadu cael adeilad dros dro at Ysgol Y Betws i gael meithrinfa 'dechrau cyflym' (6/2007-08).

4.5 Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi rhoi caniatâd i'r cais cynllunio canlynol:-
E/15219 - Estyniad sengl ger 59 Heol y Cyrnol, Betws (28/2006-07).

4.6 Fydd gwrandawiad cynllunio yn cymryd lle ar y 1af of mis Mai ym Mharc Amanwy, Rhydaman ynglyn ag apêl sydd wedi cael eu danfon I Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn

erbyn penderfyniad a wnaeth Cyngor Sir Caerfyrddin i wrthod rhoi caniatâd cynllunio i'r canlynol:-
E/14134 - Newid arfaethedig i ddefnydd tir i iard beirianneg sifil, ger Gweithdy Peirianneg Aman, Heol Pentwyn, Betws (14)

5. CYFRIFON.
1. Aelodaeth HOWLTA £10.00
2. Aelodaeth Un Llais I Gymru £177.00
3. Lwfans y Cadeirydd (3ydd rhandal a rhandal terfynol) £100.00
4. Gwasg Dinefwr (Taflen Newyddion) £97.00
5. Cynghorwyr Menna Roberts (cetrisen argraffydd i'r Cyfrifiadur Cymuned) £37.95
6. Morgan & Morgan (offer swyddfa i'r Clerc) £72.51
7. Morgan & Morgan (offer swyddfa i'r Clerc) £38.49
8. Cynghorwyr Peter Cowell (cetrisen argraffydd) £42.86
CYFANSWM £575.81
CYTUNWYD: I dalu'r biliau uchod.

Dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr ei bod hi'n mynd i wneud trefniadau gyda Mr Lyn Llewelyn, i wneud yr archwiliad mewnol o gyfrifon y Cyngor Cymuned, gobeithio bydd yn cael ei wneud yn y mis hwn.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

6. ADRODDIAD HEDDLU DYFED POWYS.
Mynychodd PC Kevin Jones y cyfarfod ar ran Heddlu Dyfed Powys. Adroddodd fod yna 5 trosedd yw nodi yn ardal y Betws ym mis Mawrth. Maent fel a ganlyn:-
3 perchen ar ganabis ar fynydd y Betws, 1 niwed troseddol i gerbydau ac 1 niwed troseddol.

Adroddodd PC Kevin Jones ei fod ef wedi cyfarfod gyda Mr McAvoy o Adran y Briffordd o Gyngor Sir Caerfyrddin ar y 17eg o Fawrth 2007. Mae canlyniad y Cyfarfod fel a ganlyn:-

·Nid yw'r Cyngor Sir yn fodlon ymestyn y ffin cyflymder 30mya nes lan nâr cyffordd I Gae Mawr.
·Mae'r Cyngor Sir yn dal i gael cyfarfodydd ynglyn ar ddiffyg croesfan cerddwyr ar hyd Heol Ffowndri.
·Fydd y Cyngor Sir yn gosod offer monitor cyflymder ar hyd Heol Yr Argoed, Betws.

Roedd y Cynghorwr Annette Price yn pryderu oherwydd bod pobl ifanc yn difrodi'r gwaith sydd wedi cael ei wneud ynglyn ar brosiect i fwynhau Parc y Betws. Cadarnhaodd PC Jones fydd yn edrych mewn i'r matter hyn.

Roedd PC Jones wedi sicrhau'r Cynghorwyr fod y gwn gyflymder roedd wedi son am yn erthygl papur newyddion a rhoddwyd yn y cyfarfod diwethaf gan y Cynghorwr Anne Sizmur ddim yn un fath ar un mae Heddlu Dyfed Powys yn bwriadu archebu. Dywedodd y Clerc wrth PC Jones fod y Cyngor Cymuned wedi cytuno cyfrannu £200 at brynu gwn cyflymer, nid yw'r Clerc wedi derbyn anfoneb/lythyr yn gofyn am gyfraniad y Cyngor Cymuned hyd yn hyn. Dywedodd PC Jones wrth y Cynghorwyr fydd yn mynd i siarad gyda Tony Ward ar y mater hwn.

NODWYD y pwyntiau uchod gan y Cynghorwyr.

Rhoddodd y Gadeiryddes ddiolch i PC Kevin Jones am ei adroddiad.

7. ADRODDIAD Y CYNGHORWR SIR.
Roedd y Cynghorwr Sir John D Evans wedi danfon ei ymddiheuriad ond nid oedd yn gallu fod yn bresennol yn Cyfarfod y Cyngor Cymuned yn fis hon.

8. PROSIECTAU.
8.1 Betws yn ei Blodau.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr ei bod hi wedi siarad gyda'r Brif Athrawes o Ysgol Gynradd y Betws a hefyd gyda Thy Tyfi sydd wedi awgrymi ddim cael cystadleuaeth am yr oedran dan 7 blwydd oed ond yn lle, gwneud gludwaith mawr o 'Fy Ngardd neu Barc Betws'. Fydd hyn yn gallu cael ei arddangos yn ddiwrnod agored y parc. Cytunwyd y Cynghorwyr i'r uchod.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

8.2 Prosiect Park Betws.
Roedd y Cynghorwr Annette Price wedi diweddaru'r Cynghorwyr ynglyn ar gynnydd o'r prosiect i fwynhau Parc Betws. Adroddodd y Cynghorwr Annette Price yn anffodus roedd rhaid i'r garreg cael ei newid. Hefyd fydd slabiau pennwn yn cael ei rhoi amgylch y garreg. Cytunwyd y Cynghorwyr i'r newidiadau uchod. Hefyd dywedodd y Clerc wrth y Cynghorwyr nid yw hi dal wedi derbyn anfonebau ynglyn ar waith sydd wedi cael ei wneud ar y prosiect i fwynhau Parc Betws. Cadarnhaodd y Cynghorwr Annette Price fydd hi'n siarad gyda Menter Dyffryn Aman ynglyn â'r mater hyn.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9. UNRHYW FATER ARALL.
9.1 Cymhorthfa'r Cyngor Cymuned.
Dywedodd y Cynghorwr Anne Sizmur wrth y Cynghorwyr bod y Cynghorwr Loreen Lewis a hi wedi bod yn bresennol yng Nghymhorthfa'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd cyn Cyfarfod mis Ebrill y Cyngor Cymuned ac nid oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd wedi bod yn bresennol yn y Gymhorthfa.
NODWYD y pwynt uchod gan y Cynghorwyr.

9.2 Ymddeoliad o Gynghorwr Peter Cowell.
Gofynnodd y Clerc i'r Cynghorwyr am awdurdodiad fel y bod hi'n gallu gwneud trefniadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â hysbysebu'r swydd o Gynghorwr Cymuned, gan fod Cynghorwr Peter Cowell yn ymddeoliad o'r Cyngor Cymuned ar y 30ain o Ebrill 2007.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn gallu gwneud trefniadau gyda Chyngor Sir Caerfyrddin ynglyn â hysbysebu'r swydd o Gynghorwr Cymuned.

Rhoddodd y Cynghorwyr ddiolch i Gynghorwr Peter Cowell am ei waith called ai cefnogaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd. Diolchodd y Cynghorwr Peter Cowell y Cynghorwyr am ei sylwadau. Dywedodd ei fod ef wedi danfon dogfennau ymlaen at Gynghorwr Betsan Jones ynglyn â chynllunio a llwybrau troed. Fydd rhaid rhoi hyn ar agenda mis nesaf, fel y gall cael ei benderfynu pa Gynghorwr fydd yn cymryd dros y rhaglen cynhaliaeth y llwybrau troed a hefyd Prif Gynllun Gwaith Glo Betws.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod hyn yn cael ei rhoi ar agenda mis nesaf.

9.3 Llwybrau Troed 68/11, 3/16 & 3/14.
Roedd y Cynghorwr Arnallt James dal i bryderu am lwybrau troed 68/11, 3/16 & 3/14. Gofynnodd i'r Clerc I erlid y mater hwn gyda Mr Carlsen o Gyngor Sir Caerfyrddin.
PENDERFYNWYD y Cynghorwyr fod y Clerc yn cysylltu gyda Mr Carlsen ynglyn ar lwybrau troed uchod.

Gorffennodd y Cyfarfod am 9:55 yp